OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1252 (Cy. 84)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ar gyfer gweinyddu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608) ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol") a'r tri o Reoliadau cysylltiedig eraill yr UE y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(1).

Mae rheoliad 3 yn pennu isafswm arwynebedd cymwys daliad y caniateir rhoi taliadau uniongyrchol i ffermwr mewn cysylltiad ag ef.

Mae rheoliad 4 yn pennu'r dyddiad pan fo'n rhaid i barseli a ddefnyddir fel y sail ar gyfer hawliad o dan y cynllun taliad sylfaenol fod ar gael i ffermwyr.

Mae rheoliad 5 yn pennu'r gweithgareddau y mae'n rhaid i ffermwr eu cyflawni er mwyn cynnal ardal amaethyddol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir.

Mae rheoliad 6 yn pennu isafswm y gweithgarwch amaethyddol y mae'n ofynnol ei gyflawni ar dir a gedwir yn naturiol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir.

Mae rheoliad 7 yn dynodi'r coed coedlan cylchdro byr sy'n gymwys o dan y cynllun taliad sengl, ac yn gosod y cylch cynaeafu uchaf.

Mae rheoliad 8 yn darparu ar ba sail y mae'n rhaid cyfrifo cynnydd mewn taliadau uniongyrchol i ffermwyr cymwys sy'n 40 oed neu'n iau ac sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau ffermwyr ifanc.

Mae rheoliad 9 yn pennu'r trothwy lle na fydd gweithgareddau amaethyddol yn cael eu hystyried yn ddi-nod, yn nodi sut y mae ffermwr i ddangos mai arfer gweithgarwch amaethyddol yw ei brif fusnes ac yn darparu esemptiad i ffermwr a dderbyniodd EUR 5,000 neu lai o daliadau uniongyrchol yn y flwyddyn flaenorol rhag yr anghymhwysiad i gael taliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 10 yn nodi sut y caiff hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol eu dyrannu ac yn pennu ar ba ddyddiad y mae'n rhaid i nifer yr hectarau cymwys fod ar gael i ffermwyr.

Mae rheoliad 11 yn nodi sut y caniateir i hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol gael eu trosglwyddo drwy eu gwerthu neu eu lesio ac yn gwneud darpariaeth ynghylch o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid i drosglwyddwr hysbysu Gweinidogion Cymru fod yr hawliau i daliadau wedi eu trosglwyddo.

Mae rheoliad 12 yn darparu mai o fewn 30 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod cyntaf ar ôl dyddiad y trosglwyddiad, yw'r cyfnod y mae'n rhaid i drosglwyddai daliad hysbysu Gweinidogion Cymru am y trosglwyddiad a gofyn am daliad.

Mae rheoliad 13 yn nodi'r gweithgareddau hynny heblaw amaethyddiaeth a ganiateir ar ardal amaethyddol am gyfnod o hyd at 28 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn galendr ac yn dynodi'r ardaloedd hynny a ystyrir fel rhai a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion heblaw amaethyddiaeth ac sydd felly yn anghymwys at ddibenion y cynllun taliad sylfaenol.

Mae rheoliadau 14 i 16 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chydran "wyrddu" y taliadau uniongyrchol, sy'n cysylltu taliadau ag arferion amaethyddol sy'n llesol i'r hinsawdd a'r amgylchedd. Mae rheoliad 14 yn nodi'r cyfnod sydd i'w ystyried at ddibenion penderfynu a gydymffurfiwyd â gofynion i dyfu amrywiaeth o gnydau. Mae rheoliad 15 yn darparu ar gyfer dynodi glaswelltiroedd parhaol sy'n amgylcheddol sensitif. Mae rheoliad 16 yn nodi'r pum ardal sydd i fod yn Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ("AFfEau"), ac yn manylu ar gwmpas yr AFfEau o ran tir braenar, nodweddion tirwedd, ardaloedd coedlan cylchdro byr, ardaloedd coedwigaeth ac ardaloedd â chnydau sy'n bachu nitrogen.

Mae rheoliad 17 yn dirymu Rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Taliad Sengl a'r Cynlluniau Cymorth Ewropeaidd o ran Cymru, ond gyda darpariaeth arbed er mwyn parhau i gymhwyso Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1892 (Cy. 185)) mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth sy'n ymwneud â blynyddoedd hawlio cyn 2015.

Paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o effeithiau'r Rheoliadau hyn ar gostau i fusnesau, mewn perthynas â busnesau fferm yng Nghymru. Gellir cael copïau ohono oddi wrth yr Adran Cyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1252 (Cy. 84)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

*Gwnaed* *22 Ebrill 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *23 Ebrill 2015*

*Yn dod i rym* *14 Mai 2015*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli unrhyw gyfeiriadau at offerynnau'r UE yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mai 2015.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cais sengl" ("*single application*") yw cais am daliadau uniongyrchol mewn perthynas â chynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd;

ystyr "chwyn goresgynnol estron" ("*non-native invasive weeds*") yw'r canlynol—

Clymog Japan (*Fallopia japonica*)

Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*)

Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*)

Rhododendron wyllt (*Rhododendron ponticum*);

mae i "glaswelltir parhaol" yr un ystyr ag a roddir i "permanent grassland" yn Erthygl 4(1)(h) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ond mae hefyd yn cynnwys tir lle bydd llwyni bychan brodorol gan gynnwys y rheini a berthyn i deulu Ericaceae (grugoedd) a'r rhywogaeth Ulex gallii (eithin mân) ac/neu rhywogaethau brodorol yn nheuluoedd Juncaceae (brwyn) a Cyperaceae (hesg) mwyaf niferus a gellir ei bori;

ystyr "y Rheoliadau Ewropeaidd" ("*the European Regulations*") yw—

(a) y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;

(b) y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig;

(c) y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol; a

(d) y Rheoliad Gweithredu Llorweddol;

ystyr "y Rheoliad Gweithredu Llorweddol" ("*the Horizontal Implementing Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**1**);

ystyr "y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol" ("*the Direct Payments Implementing Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol(**2**);

ystyr "y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol" ("*the Direct Payments Regulation*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i

(**1**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 69.
(**2**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 74.

ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**1**);

ystyr "y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig" ("*the Direct Payments Delegated Regulation*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 sy'n ategu'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol(**2**).

(2) Mae i dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac a ddefnyddir hefyd yn unrhyw un neu ragor o'r Rheoliadau Ewropeaidd yr ystyr a roddir iddynt yn y Rheoliadau hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at un o offerynnau'r UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

**Isafswm arwynebedd cymwys daliad**

**3.** At ddibenion Erthygl 10(1) a (2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, ni chaniateir rhoi unrhyw daliadau uniongyrchol i ffermwr pan fo arwynebedd cymwys y daliad y mae'r taliadau'n cael eu hawlio neu'n ddyledus yn unol ag Erthygl 10(1)(b) mewn perthynas ag ef yn llai na 5 hectar.

**Y dyddiad pan fo'n rhaid i dir cymwys fod ar gael i ffermwr**

**4.** Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn y mae'r ffermwr yn gwneud datganiad yn ei chylch mewn cysylltiad â pharseli yn unol ag Erthygl 33(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, y dyddiad y mae'n rhaid i'r parseli hynny fod ar gael i'r ffermwr yw 15 Mai o'r flwyddyn honno.

**Cynnal ardal amaethyddol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir**

**5.** At ddibenion Erthyglau 4(1)(c)(ii) a 4(2)(a) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ac Erthygl 4 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, bernir bod ardal amaethyddol yn cael ei chynnal mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir pan fo ffermwr yn rheoli chwyn goresgynnol estron a phrysgwydd ar yr ardal honno.

**Isafswm y gweithgarwch amaethyddol ar dir a gedwir yn naturiol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir**

**6.** At ddibenion Erthyglau 4(1)(c)(iii) a 4(2)(b) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ac Erthygl 5 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, ar

(**1**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EU) Rhif 1310/2013 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 865).

(**2**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 1.

ardaloedd amaethyddol a gedwir yn naturiol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir, bernir bod ffermwr yn cyflawni isafswm y gweithgarwch pan fo—

(a) yr ardal honno yn cael ei phori ar ddwysedd stocio blynyddol o 0.01-0.05 o unedau da byw yr hectar; neu

(b) y ffermwr hwnnw yn rheoli chwyn goresgynnol estron a phrysgwydd ar yr ardal honno.

**Coedlan cylchdro byr**

**7.** At ddibenion Erthygl 4(1)(k) a (2)(c) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol—

(a) y rhestr o rywogaethau coed wedi eu plannu yw—

Gwernen (*Alnus spp*)

Bedwen arian (*Betula pendula*);

Collen (*Corylus avellana*);

Onnen Ewropeaidd (*Fraxinus excelsior*);

Pisgwydden (*Tilia cordata*);

Castanwydden bêr (*Castanea sativa*);

Masarnen (*Acer pseudoplatanus*);

Helygen (*Salix spp*);

Poplysen (*Populus spp*); a

(b) y cylch cynaeafu uchaf yw 20 mlynedd.

**Ffermwyr ifanc**

**8.**—(1) At ddibenion y cyfrifiad ar gyfer taliad sy'n ofynnol gan Erthygl 50(6) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, bydd nifer yr hawliau y mae ffermwr ifanc wedi eu gweithredu yn unol ag Erthygl 32(1) o'r Rheoliad hwnnw yn cael ei luosi â 25% o swm a gyfrifir drwy rannu canran sefydlog o'r terfyn cenedlaethol ar gyfer blwyddyn galendr 2019 â nifer yr holl hectarau cymwys a ddatgenir ar y cais sengl ar gyfer blwyddyn hawlio 2015.

(2) At ddiben Erthygl 50(9) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, mae un terfyn uchaf o 25 yn gymwys i nifer yr hectarau cymwys a ddatgenir gan y ffermwr.

**Ffermwyr actif**

**9.**—(1) At ddibenion Erthygl 9(2) is-baragraff 3(b) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, nid yw gweithgareddau amaethyddol ffermwr yn ddi-nod os yw cyfanswm maint daliad y ffermwr hwnnw yn fwy na 21 hectar neu'n gyfwerth â hynny, yn unol â thrydydd is-baragraff Erthygl 13(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(2) At ddibenion Erthygl 9(2) is-baragraff 3(c) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, mae prif fusnes neu amcanion cwmni ffermwr yn cynnwys arfer gweithgarwch amaethyddol pan fo'r ffermwr hwnnw yn darparu tystiolaeth i Weinidogion Cymru y cafwyd o leiaf 40% o gyfanswm derbyniadau'r busnes o weithgareddau amaethyddol yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf y mae tystiolaeth ar gael ar ei chyfer, yn unol â thrydydd is-baragraff Erthygl 13(3) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(3) At ddibenion Erthygl 9(4) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, yr uchafswm yw EUR 5,000.

**Hawliau'r Cynllun Taliad Sylfaenol**

**10.**—(1) At ddibenion Erthygl 22(1) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, rhaid i geisiadau am ddyraniad o hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol yn unol ag Erthygl 24 neu Erthygl 30, ac eithrio paragraff 7(e), o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ddim hwyrach na 15 Mai yn y flwyddyn galendr berthnasol.

(2) Rhaid i gais am ddyraniad o hawliau i daliadau gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â'r cais am gymorth o dan y cynllun taliad sylfaenol, yn unol ag Erthygl 22(2) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol.

(3) At ddibenion trydydd is-baragraff Erthygl 24(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, bydd Gweinidogion Cymru yn dyrannu hawliau i daliadau i ffermwyr—

(a) sydd â'r hawl i gael taliadau uniongyrchol yn unol ag Erthygl 9 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol; a

(b) sy'n cyflwyno cais am ddyraniad o hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol yn unol â pharagraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn; ac

(c) naill ai—

(i) a oedd yn cynhyrchu ffrwythau, llysiau, tatws bwyta, tatws hadyd neu blanhigion addurniadol; neu

(ii) a oedd yn meithrin gwinllannoedd; neu

(iii) nad ydynt erioed wedi dal hawliau'r cynllun taliad sengl, naill ai drwy berchenogaeth neu drwy eu lesio i mewn, ond sy'n gallu cyflwyno tystiolaeth ddilysadwy eu bod, ar 15 Mai 2013, yn cynhyrchu, yn magu neu'n tyfu cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys drwy gynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio.

(4) At ddibenion Erthygl 24(2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, y dyddiad y mae'n rhaid i nifer yr hectarau cymwys fod ar gael i'r ffermwr yw 15 Mai 2015.

**Trosglwyddo hawliau**

**11.**—(1) Yn achos gwerthu daliad neu ran ohono, caiff ffermwr, drwy gontract a lofnodir cyn 15 Mai 2015, drosglwyddo ynghyd â'r daliad neu ran ohono, yr hawliau i daliadau cyfatebol sydd i'w dyrannu, yn unol ag Erthygl 20 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(2) Yn achosi lesio daliad neu ran ohono, caiff ffermwr, drwy gontract a lofnodir cyn 15 Mai 2015, lesio allan ynghyd â'r daliad neu ran ohono, yr hawliau i daliadau cyfatebol sydd i'w dyrannu, yn unol ag Erthygl 21 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(3) At ddibenion Erthygl 8(1) o'r Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol, y cyfnod y mae'n rhaid i drosglwyddwr yr hawliau i daliadau hysbysu Gweinidogion Cymru ynddo am y trosglwyddiad yw rhwng 16 Mai yn y flwyddyn galendr flaenorol a 30 Ebrill (gyda'r ddau ddyddiad hynny'n gynwysedig) yn y flwyddyn galendr gyntaf y caiff y trosglwyddai gynnwys yr hawliau hynny yng nghais y trosglwyddai am daliadau uniongyrchol.

**Trosglwyddo daliad**

**12.** At ddibenion Erthygl 8(3)(a) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, y cyfnod y mae'n rhaid i'r trosglwyddai hysbysu Gweinidogion Cymru am y trosglwyddiad a gofyn am daliad o'r cymorth neu'r gefnogaeth, neu'r ddau, yw o fewn 30 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod cyntaf ar ôl dyddiad y trosglwyddiad.

**Gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth**

**13.**—(1) Yn unol ag Erthygl 32(3) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol—

(a) rhestrir y gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth y caniateir eu cynnal ar ardal amaethyddol o ddaliad am gyfnod o hyd at 28 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn galendr yn Rhan 1 o'r Atodlen;

(b) rhestrir yr ardaloedd a ystyrir yn rhai a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth yn Rhan 2 o'r Atodlen;

(c) os mai prif bwrpas y tir mewn unrhyw ardal yw ar gyfer gweithgareddau hamdden, neu weithgaredd heblaw amaethyddiaeth a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen, nid yw'n gyson ag

ystyried bod y tir yn parhau mewn defnydd amaethyddol.

### Tyfu amrywiaeth o gnydau

**14.** At ddibenion is-baragraff cyntaf Erthygl 40(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, y cyfnod trin y tir perthnasol mewn unrhyw flwyddyn yw 1 Mai i 15 Gorffennaf (gyda'r ddau ddyddiad yn gynwysedig).

### Glaswelltir parhaol

**15.**—(1) Mae unrhyw laswelltir parhaol—

(a) a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a

(b) y mae'n ofynnol cael caniatâd ysgrifenedig mewn perthynas ag ef i'w aredig yn unol ag adran 28E o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**) ond nad yw caniatâd o'r fath wedi ei gael,

wedi ei ddynodi yn laswelltir parhaol amgylcheddol sensitif at ddibenion Erthygl 45(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" yr ystyr a roddir i "site of special scientific interest" yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

### Ardaloedd â ffocws ecolegol

**16.**—(1) At ddibenion Erthygl 46(2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, ystyrir bod yr ardaloedd a grybwyllir ym mhwyntiau (a) (tir braenar), (g) (ardaloedd coedlan cylchdro byr), (h) (ardaloedd coedwigaeth) a (j) (ardaloedd â chnydau sy'n bachu nitrogen) ac, yn ddarostyngedig i baragraff (3), bwynt (c) (nodweddion tirwedd), yn Ardaloedd â Ffocws Ecolegol.

(2) Yn unol ag Erthygl 45(2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, ni chaniateir unrhyw gynhyrchu amaethyddol ar dir braenar mewn unrhyw flwyddyn rhwng 1 Chwefror a 31 Gorffennaf (gyda'r ddau ddyddiad yn gynwysedig).

(3) At ddibenion ail is-baragraff Erthygl 45(4) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, mae nodweddion tirwedd yn gyfyngedig i'r canlynol—

(a) perthi hyd at 10 metr o led; a

(b) waliau cerrig traddodiadol sy'n 1 metr o uchder o leiaf ac yn ddim mwy na 4 metr o led.

---

(**1**) 1981 p. 69.

(4) At ddibenion Erthygl 45(8) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig—

(a) y rhestr o rywogaethau coed wedi eu plannu y caniateir eu defnyddio ar gyfer coedlan cylchdro byr yw—

Gwernen (*Alnus spp*),

Bedwen arian (*Betula pendula*),

Collen (*Corylus avellana*),

Onnen Ewropeaidd (*Fraxinus excelsior*),

Pisgwydden (*Tilia cordata*),

Castanwydden bêr (*Castanea sativa*),

Masarnen (*Acer pseudoplatanus*),

Helygen (*Salix spp*),

Poplys (*Populus spp*); a

(b) o fewn y 2 flynedd gyntaf yn dilyn plannu unrhyw un neu ragor o'r rhywogaethau ym mharagraff (4)(a)—

(i) ni chaniateir defnyddio unrhyw wrtaith mwynol ar y rhywogaethau hynny, a

(ii) ni chaniateir defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion ond ar gyfer trin chwyn goresgynnol estron; a

(c) y cylch cynaeafu hwyaf yw 20 mlynedd.

(5) At ddibenion Erthygl 45(10) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig—

(a) y rhestr o gnydau sy'n bachu nitrogen yw—

Alffalffa (*Medicago sativa*),

Ffa (*Phaseolus spp*),

Ffa (*Vigna spp*),

Pys-y-ceirw (*Lotus corniculatus*),

Gwygbys (*Cicer spp*),

Meillion (*Trifolium spp*),

Ffa'r gerddi (*Vicia faba*),

Corbys (*Lens culinaris*),

Bysedd-y-blaidd (*Luninus spp*),

Pys (*Pisum spp*),

Ffacbys (*Vicia spp* ac eithrio *Vicia faba*),

Medicago Lupulina (*maglys*),

Glycine max (*ffa soia*),

Melilotus albus (*yr wydro wen*),

Onobrychus viciifolia (*y godog*); a

(b) mewn unrhyw flwyddyn, rhaid i unrhyw gnwd sy'n bachu nitrogen gael ei hau erbyn 15 Mai a bod yn bresennol am 14 o wythnosau o'r dyddiad y'i heuwyd, neu hyd 1 Awst fan hwyaf.

(6) Wrth gyfrifo cyfanswm yr hectarau a gynrychiolir gan yr Ardal â Ffocws Ecolegol ar gyfer daliad, bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r ffactorau trosi a phwysoli a nodir yn Atodiad X i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.

**Dirymiadau ac arbedion**

**17.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010")(**1**); a

(b) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012(**2**).

(2) Bydd Rheoliadau 2010 fel yr oeddent mewn grym yn union cyn 2015 yn parhau i fod yn gymwys mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth o ran 2014 a blynyddoedd hawlio cynharach.

*Rebecca Evans*
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
22 Ebrill 2015

(**1**) O.S. 2010/1892 (Cy. 185).
(**2**) O.S. 2012/3093 (Cy. 311).

# YR ATODLEN Rheoliad 13

## Gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth

## RHAN 1

### Gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth a ganiateir ar ardaloedd amaethyddol am hyd at 28 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn galendr

Saethu colomennod clai

Arwerthiannau cist car

Gwyliau

Sioeau a ffeiriau gwledig

Arwerthiannau a gwerthiannau fferm

Gweithgareddau marchogaeth

Balwnio

Parcio ceir*

Gwersylloedd sgowtiaid

Gwersylloedd geidiaid

Meysydd carafanau

Meysydd pebyll

Lleoliadau teledu a ffilmiau

Chwaraeon moduron

Moto cross

* Pa un a yw hynny'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd arall heblaw amaethyddiaeth ai peidio

## RHAN 2

### Ardaloedd a ystyrir yn rhai a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth

Cyrsiau golff

Ardaloedd ymarfer ceffylau

Meysydd awyr

Parciau solar

Gosodiadau a chyfleusterau chwaraeon parhaol